Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth addysg bellach

## Coleg Penybont

**Heol Y Bont-faen**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 3DF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Penybont

Mae Coleg Penybont yn goleg addysg bellach sydd â chyfanswm o ryw 7,000 o ddysgwyr wedi cofrestru. Mae'r coleg yn cyflwyno cyrsiau galwedigaethol mewn llawer o feysydd, gan gynnwys:

- Y celfyddydau creadigol, chwaraeon, gwasanaethau cyhoeddus, TG ac addysg
- Astudiaethau'r tir, astudiaethau gofal ac astudiaethau plentyndod
- Gwasanaethau i bobl, busnes a medrau
- Medrau byw yn annibynnol
- Adeiladu
- Peirianneg a gwyddoniaeth

Mae hefyd yn cyflwyno darpariaeth partneriaeth, gan gynnwys prentisiaethau iau, ysbrydoli i ddysgu a darpariaeth gydweithredol Safon Uwch gydag ysgolion uwchradd lleol.

Mae'r coleg yn cynnig cyfleoedd dilyniant i'r lefel nesaf mewn llawer o gyrsiau. Mae ganddo ryw 1,864 o ddysgwyr amser llawn, a 652 o ddysgwyr rhan-amser, yn ogystal â 545 o ddysgwyr sy'n mynychu gyda'r nos neu ar adegau eraill. Mae'r coleg yn cyflogi tua 800 o staff ac yn gweithredu ar draws pedwar campws, dau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Pen-coed a Maesteg. Mae hefyd yn gweithredu cyfleuster preswyl ar gyfer dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu difrifol, sef Tŷ Weston, sydd wedi'i leoli o fewn tir ei gampws ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ar draws y coleg, nodwyd bod gan 6.4% o ddysgwyr amser llawn fedrau rhugl yn y Gymraeg.

Mae tua hanner dysgwyr y coleg yn dod o oddi mewn i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n ymestyn tua 20km o'r gorllewin i'r dwyrain, yng nghymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr. Amcangyfrifir mai cyfanswm poblogaeth y sir yw tua 135,000. Mae'r coleg wedi'i leoli yn ganolog rhwng Abertawe a Chaerdydd. Mae'r coleg yn gwasanaethu rhanbarth sydd â phocedi o amddifadedd cymdeithasol gyda chyfraddau anweithgarwch economaidd sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru.

Mae tua 148,000 o bobl yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn ôl data sydd ar gael, tyfodd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr 8% rhwng cyfrifiadau 2001 a 2011. O'r boblogaeth bresennol, mae 26,000 (18%) o dan 16 oed, a thua 30,000 (20%) yn 65 oed ac yn hŷn.

Ym mis Medi 2021, roedd y gyfradd cyflogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 72.9%, sydd ychydig yn is na ffigur Cymru, sef 73.1%. Yn 2021, cyfradd yr enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd £608. Dyma oedd yr uchaf ymhlith y 22 awdurdod lleol. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019 yn dangos bod 40% o ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr o fewn y 30% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae bron pob un o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr o gefndir ethnig gwyn. Mae Arolwg Blynyddol y Boblogaeth yn 2021 yn dangos mai canran y bobl sy'n dair oed ac yn hŷn sy'n siarad Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw 17%, sef cynnydd o 3 phwynt canran mewn 10 mlynedd.

Mae tua 19% o oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cymhwyso hyd at lefel 2, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae cyfran yr oedolion sydd wedi cymhwyso hyd at lefel 3 (20%) ac i lefelau 4 i 6 (31%) islaw cyfartaleddau Cymru.

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn gosod ethos clir ar gyfer y coleg ac mae ganddo ymrwymiad cryf i godi dyheadau dysgwyr i ddatblygu a chyflawni mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol. Caiff ei gynorthwyo'n dda gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ar draws y coleg. Caiff yr arweinyddiaeth ystyriol a'r ymrwymiad i degwch a llwyddiant ar gyfer yr holl ddysgwyr eu rhannu gan staff a llywodraethwyr.

Yn ystod pandemig COVID-19, ymatebodd y coleg yn dda i anghenion ei ddysgwyr a'i gyflogwyr. Roedd staff yn hyblyg ac yn ymroi i wneud yn siŵr fod dysgwyr yn aros mewn dysgu ac yn gwneud cynnydd. Mae bron pob un o'r dysgwyr wedi dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn y coleg erbyn hyn, gydag ychydig ohonynt yn cael elfen o gyflwyno o bell. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cymorth personol gan athrawon ac aelodau staff eraill yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd priodol, o leiaf, o ran ennill eu cymwysterau. Mae'r dysgwyr hynny y nodwyd bod angen cymorth dysgu ychwanegol arnynt yn elwa ar ddarpariaeth arbenigol. O ganlyniad i'r cymorth buddiol hwn, mae dysgwyr wedi aros ar eu cyrsiau ac wedi gwella'u hyder.

Mae'r coleg yn cynnig darpariaeth amrywiol gyda ffocws clir ar gyrsiau galwedigaethol, ac yn gweithio'n dda i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant ei gymuned leol. Mae ehangder y ddarpariaeth ar wahanol lefelau yn golygu bod dysgwyr yn elwa ar gyfleoedd dilyniant i lefel uwch o gyrsiau, addysg uwch neu brentisiaethau. Mae partneriaethau cryf yn helpu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i ennill interniaethau a gefnogir. Mae'r coleg wedi canolbwyntio ei adnoddau yn briodol ar gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg ar gyfer ychydig o gyrsiau targedig mewn meysydd blaenoriaeth cenedlaethol.

Ar draws y coleg, mae dysgwyr yn gwerthfawrogi dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig am eu dysgu ac yn falch o'u gwaith. Mae bron pob un o'r athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn addasu eu haddysgu i weddu i gyd-destun pob dosbarth. Mae gan y coleg fodel tra ystyriol i gefnogi dysgu proffesiynol y staff addysgu. Mae staff yn cefnogi datblygiadau addysgu a dysgu ei gilydd mewn timau bach. Tarfwyd ar addysg flaenorol mwyafrif dysgwyr presennol y coleg o ganlyniad i effeithiau pandemig COVID-19. Roedd medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn cofrestru yn y coleg yn 2021 gryn dipyn yn wannach o gymharu â charfannau blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i effeithiau'r pandemig ar eu profiadau addysg. O ganlyniad, mae angen i'r coleg barhau i ddatblygu strategaethau i feithrin gwydnwch dysgwyr.

Er bod y coleg yn rhoi gwybod i ddysgwyr am faterion yn ymwneud â radicaleiddio a therfysgaeth trwy ystod eang o fentrau, dylai'r coleg gryfhau ei werthusiad o effaith y mentrau hyn.

## Argymhellion

A1 Dylai'r coleg gryfhau ei werthusiad o ran effaith y mentrau i godi ymwybyddiaeth dysgwyr am radicaleiddio a therfysgaeth, fel ei fod yn sicr bod pob un o'r dysgwyr yn deall sut i aros yn ddiogel

A2 Yn sgil y tarfu a achoswyd i ddysgwyr yn ystod y pandemig, parhau i ddatblygu strategaethau i feithrin gwydnwch dysgwyr

A3 Sicrhau bod dysgwyr yn goresgyn unrhyw fylchau mewn dysgu blaenorol sy'n amharu ar eu medrau llythrennedd a rhifedd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â rhaglenni prentisiaid iau ac ehangder y cwricwlwm ar gyfer medrau byw yn annibynnol i ddysgwyr, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

**Rhaglen prentisiaid iau**

Mae dysgwyr sy'n brentisiaid iau yn 14-16 oed ac yn mynychu'r coleg o ysgolion lleol i ddilyn cyrsiau galwedigaethol. Mae dysgwyr sy'n brentisiaid iau yn elwa pan fydd athrawon yn creu diwylliant dysgu lle nad yw dysgwyr yn ofni gwneud camgymeriadau neu fynegi barn. Mae athrawon yn cynorthwyo dysgwyr o'u mannau cychwyn yn dda iawn i ddatblygu amrywiaeth o fedrau yn gysylltiedig â gwaith sy'n cael eu hategu gan ddatblygiad eu medrau mathemateg a Saesneg. Mae'r dysgwyr hyn hefyd yn manteisio ar ystod eang o gymorth cofleidiol sy'n helpu i'w cynorthwyo mewn llawer o agweddau ar eu gwaith a'u bywydau personol. Mae hyn yn helpu gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn aros ar y rhaglen ac yn gwneud cynnydd yn gwella a datblygu amrywiaeth eang o fedrau bywyd, cyflogaeth a medrau galwedigaethol.

**Ehangder y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol**

Mae ehangder y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol ac ystod y rhaglenni dysgu yn darparu llwybrau addas a realistig i waith ar gyfer dysgwyr mewn dosbarthiadau medrau byw yn annibynnol, cael mynediad i'r gymuned a datblygu annibyniaeth. Mae'r cwricwlwm wedi'i seilio ar bedwar llwybr ac un llwybr interniaeth a gefnogir. Dyrennir llwybrau i ddysgwyr wedi'u seilio ar eu dyheadau a'u hanghenion dysgu, ac mae cymwysterau'n cefnogi proses asesu bersonoledig, heb ei hachredu. Rhoddir cyfle i ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol ymgymryd â phrofiad gwaith ystyrlon sy'n cefnogi cynnydd tuag at ddyheadau gwaith tymor hwy. Yn 2020/2021, o ganlyniad i'r cyfleoedd hyn, llwyddodd pob un o'r dysgwyr ar interniaethau a gefnogir i sicrhau swydd gyflogedig amser llawn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Er gwaethaf eu profiadau yn ystod y pandemig, mae llawer o ddysgwyr yn gweithio'n llwyddiannus tuag at ennill eu cymwysterau. Mae'r mwyafrif ohonynt yn olrhain y cynnydd a wnânt yn ofalus, a gallant fyfyrio ar y targedau y maent wedi cytuno arnynt gyda'u hathrawon. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf, ac mae llawer ohonynt yn cynhyrchu gwaith o safon uwch. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn ymateb yn dda i adborth gan eu hathrawon, gan ailymweld â'u dysgu a gwella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ymarferol o safon briodol, o leiaf, ac mae llawer ohonynt yn dangos cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ymarferol. Mae dysgwyr amaethyddiaeth yn datblygu eu medrau ymarferol wrth ddadansoddi samplau o bridd, ac mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol yn arddangos eu medrau datblygol wrth chwarae offerynnau fel rhan o berfformiadau cerddorol.

Mae llawer o ddysgwyr yn galw dysgu diweddar i gof yn dda, a gall mwyafrif ohonynt gymhwyso dysgu i sefyllfaoedd newydd yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr trin gwallt lefel 3 yn galw gwybodaeth ymarferol helaeth i gof ac yn defnyddio eu profiadau o weithio yn salon masnachol y coleg i ymestyn eu medrau ymarferol. Mae dysgwyr mewn gwersi cyfryngau yn datblygu eu medrau meddwl ar lefel uwch ac yn cymhwyso'r rhain pan fyddant yn disgrifio sut y gall effeithiau gweledol a ddefnyddir mewn gwahanol gyd-destunau gael eu haddasu a'u defnyddio fel rhan o'u prosiectau eu hunain.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf wrth weithio gyda'i gilydd fel rhan o dîm. Maent yn darparu cymorth a her ar gyfer syniadau ei gilydd, yn cyfathrebu'n dda, ac yn gweithio'n effeithiol mewn grwpiau. Dangosir hyn wrth werthuso dyluniad ac ansawdd adeiladu blychau adar mewn sesiynau amaethyddiaeth, ac wrth drafod rhinweddau cymharol hawliau dynol mewn gwersi yn y gyfraith Safon Uwch.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu prosiectau a'u haseiniadau. Mae mwyafrif y dysgwyr yn cyflwyno ac yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn dda. Mae ychydig o ddysgwyr lefel 3 a lefel 4 yn creu nodiadau gwersi wedi'u strwythuro'n eithriadol o dda yn annibynnol, ac yn gweithio rhwng gwersi i gasglu deunyddiau adolygu a chynlluniau traethawd a ystyriwyd yn ofalus fel rhan o'u paratoadau ar gyfer asesiadau. Mae mwyafrif y dysgwyr yn trafod ffocws eu prosiectau annibynnol yn dda, gan fynegi'r cymhelliant y tu ôl i'w gwaith ac esbonio agweddau penodol ar eu prosiectau yn glir.

O ganlyniad i'r pandemig, mae mwyafrif o ddysgwyr yn dechrau eu cyrsiau o fan cychwyn is na'r disgwyl. Er eu bod wedi profi tarfu ar eu profiadau addysgol blaenorol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau llythrennedd. Trwy eu gwaith ysgrifenedig, mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio paragraffau testun strwythuredig wedi'u cefnogi gan nodiadau a brasluniau anodedig defnyddiol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud camgymeriadau sylfaenol dro ar ôl tro mewn sillafu ac atalnodi. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau medrau byw yn annibynnol yn cyfathrebu'n

effeithiol ac yn frwdfrydig, yn rhyngweithio'n dda â dysgwyr eraill, ac yn datblygu medrau gwrando, medrau cymdeithasol a medrau llafaredd cryf o ganlyniad.

Mewn gwersi mathemateg TGAU, mae tua hanner y dysgwyr yn cael trafferth galw egwyddorion mathemategol a rhifedd sylfaenol i gof. At ei gilydd, mae gwybodaeth y dysgwyr hyn yn is nag a welwyd ymhlith carfannau tebyg cyn y pandemig, sy'n adlewyrchu'r tarfu ar eu dysgu blaenorol. Er gwaethaf hyn, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd digonol dros gyfnod i wella eu medrau. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd boddhaol hefyd i ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws eu cyrsiau. Gwnânt gyfrifiadau defnyddiol a pherthnasol o fewn cyd-destun eu hastudiaethau galwedigaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio cymwysiadau caledwedd a meddalwedd cyfrifiadur yn hyderus i gefnogi eu dysgu, fel cymwysiadau prosesu geiriau, cyflwyno a gweithio o bell. Lle bo'n berthnasol, mae dysgwyr yn gwneud defnydd medrus o becynnau meddalwedd safon diwydiant. Mewn gwersi peirianneg, mae dysgwyr yn dylunio cylchedau electronig ac yn canfod diffygion gan ddefnyddio meddalwedd arbenigol. Mewn gwersi technoleg gwybodaeth, mae dysgwyr yn defnyddio cymwysiadau graffeg i ddylunio cymeriadau ar gyfer y gemau y maent yn eu datblygu.

Mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n ffoaduriaid, yn blant sy'n derbyn gofal neu'n ofalwyr ifanc yn parhau i ymgysylltu ar eu cyrsiau, ac mae llawer ohonynt yn mynychu eu gwersi'n dda, gyda chymorth darpariaeth deilwredig. Mae'r nifer fach o ddysgwyr oedran ysgol Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 sy'n mynychu darpariaeth prentisiaeth iau'r coleg yn ymgysylltu'n dda â'u gwersi. Ar draws y coleg, mae cyfran fach y dysgwyr sy'n nodi nad ydynt yn wyn o ran eu hethnigrwydd yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus ar gyfraddau ychydig yn uwch na chyfartaledd y coleg. Mae dysgwyr sy'n derbyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn cwblhau eu cyrsiau ar gyfraddau sy'n debyg i'r holl ddysgwyr ar draws y coleg.

Mae cyfran y dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'u cadarnhau sy'n cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus wedi bod yn uwch na chyfartaledd y coleg yn ddiweddar. Mewn gwersi, mae llawer o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cymryd rhan mewn darpariaeth brif ffrwd yn chwarae rhan lawn mewn gwersi, gan ymateb i gwestiynau athrawon a gweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion.

Mae dysgwyr ag anghenion hynod gymhleth, sy'n byw yn Nhŷ Weston, yn mwynhau eu dysgu ac ymgysylltu'n gadarnhaol ag ef. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu hannibyniaeth, eu medrau cyfathrebu a'u medrau hunanofal, yn ogystal â'u dealltwriaeth o sut i reoli eu hymddygiad, eu hyder a'u medrau cymdeithasol. Er enghraifft, maent yn datblygu medrau arwyddo i gefnogi eu cyfathrebu, a'r gwydnwch i ymgymryd â heriau yn fwy parod. Maent yn dysgu sut i wneud byrbrydau syml, yn ymgysylltu'n briodol ag ymwelwyr, ac yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mewn gwersi ar draws y coleg, mae dysgwyr mwy abl a thalentog yn dangos enghreifftiau o arfer ac yn esbonio cysyniadau yn ddefnyddiol i'w cyfoedion. Maent yn achub ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau trwy gyfranogi a llwyddo mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol, perfformiadau cyhoeddus ac ymgysylltu ag academïau'r coleg.

Mae dysgwyr ym meysydd blaenoriaeth iechyd a gofal, gwasanaethau cyhoeddus, a gofal plant yn ymgymryd â phecynnau astudio a gefnogir gan Prentis-Iaith ochr yn ochr â gwers wythnosol ddynodedig i'w helpu i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Gall dysgwyr iechyd a gofal ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg yn y cyd-destun ar gyfer eu hastudiaethau galwedigaethol trwy sgyrsiau anffurfiol â'u hathrawon a'u cyfoedion. O ganlyniad, mae'r dysgwyr hyn yn datblygu eu hyder a'u gallu o ran defnyddio'r Gymraeg.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Trwy gydol y pandemig, effeithiwyd ar les llawer o ddysgwyr, ac mae llawer ohonynt yn profi ystod eang o broblemau lles, sydd wedi effeithio ar eu hunan-barch, hyder, cyfranogiad ac ymgysylltiad â'u dysgu. Mae dysgwyr yn elwa'n gynyddol ar gyfleoedd i fanteisio ar ystod gynhwysfawr o gymorth lles i'w helpu i oresgyn eu rhwystrau rhag dysgu.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ar safleoedd y coleg. Mae dysgwyr yn gwneud defnydd da o gymorth lles ar draws y coleg. Mae'r coleg yn cynorthwyo dysgwyr â materion ariannol, clybiau brecwast am ddim, cyfleuster meithrinfa ddydd a dewisiadau bwyta'n iach yn y ffreutur. Mae llawer o ddysgwyr yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein, ac mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwybod ble i droi am gymorth os bydd ei angen arnynt.

Ar draws y coleg, ceir sawl anogwr cymorth, sy'n gwneud eu hunain yn hawdd i'w hadnabod, ac maent yn weladwy iawn o gwmpas y coleg. Mae llawer o ddysgwyr yn mynd at yr aelodau staff hyn i fanteisio ar ystod eang o wasanaethau cymorth, a hefyd elwa ar gyngor gyrfaoedd i'w paratoi ar gyfer eu cam dysgu nesaf, cyflogaeth, neu entrepreneuriaeth.

Caiff dysgwyr eu cynnwys ym mywyd y coleg trwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys fel dysgwyr-lywodraethwyr, cynrychiolwyr dosbarth a llysgenhadon. O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, mae'r dysgwyr hyn yn datblygu medrau arwain gwerthfawr. Mae gan ddysgwyr lais cryf ar draws y coleg, ac maent yn helpu dylanwadu ar waith y coleg. Gwrandewir ar eu barnau, ac yn y rhan fwyaf o achosion, gweithredir arnyn nhw.

Ers y pandemig, mae'r coleg yn canolbwyntio'n fanylach ar ddatblygu hyder a gwydnwch dysgwyr. Mae dysgwyr lefel 1 yn datblygu eu menter a'u medrau cyflogadwyedd trwy fynychu'r rhaglen 'Camu Ymlaen'. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau lles, fel ymwybyddiaeth ofalgar, gweithdai iechyd rhywiol a chelf a chrefft. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu gwydnwch ac yn magu eu hyder a'u hunan-barch trwy ennill medrau, gwybodaeth a phrofiadau newydd ar eu cyrsiau.

Mae dysgwyr yn teimlo'n orbryderus a nerfus am arholiadau ar ôl y pandemig. Nid yw nifer sylweddol ohonynt wedi sefyll arholiad ffurfiol, ac o ganlyniad, mae'r coleg wedi rhoi cyfle iddynt allu manteisio ar ystod eang o adnoddau gwerthfawr i'w helpu i baratoi. Er enghraifft, maent yn darparu pecynnau tawelu, yn cynnwys offer sydd ei angen ar gyfer arholiad, ac mae staff y coleg yn cyflwyno sesiynau pwrpasol i helpu dysgwyr i gynllunio a pharatoi ar gyfer eu harholiad.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn mynychu'r coleg ar gyfraddau is nag oeddent cyn y pandemig o ganlyniad i ystod o ffactorau fel salwch, hunanynysu a hyder. Mae hyn yn effeithio ar eu lles a'u mynediad cymdeithasol ehangach at fywyd coleg.

Ar draws y coleg, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb yn fawr. Mae llawer ohonynt yn ymgysylltu'n dda â darpariaeth ychwanegol i ddatblygu eu gwybodaeth ehangach, medrau ymarferol, datblygiad personol a medrau cyflogadwyedd yn sgil y pandemig. Maent yn ymgysylltu'n arbennig o dda â chyfleoedd i astudio gwyddoniaeth a natur yng nghyd-destun cynaliadwyedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig am eu dysgu, ac yn falch o'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau dysgu a gallant gynnal ffocws trwy gydol eu gwersi. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymgysylltu'n dda â thasgau galwedigaethol. Mewn llawer o sesiynau ymarferol, mae dysgwyr yn datblygu medrau cyflogadwyedd trwy weithio mewn amgylcheddau gweithio realistig, fel delio â chwsmeriaid a chleientiaid yn y tŷ bwyta arlwyo a'r salon gwallt a therapi harddwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, yn annibynnol ac mewn grwpiau bach. Mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu medrau datrys problemau a medrau gweithio mewn tîm wrth gynllunio a chwblhau ystod eang o dasgau. Mewn dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), mae dysgwyr yn rhoi cymorth cadarnhaol i'w gilydd wrth ddatblygu medrau iaith newydd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn rhyngweithio'n hyderus â'u cyfoedion, eu hathrawon ac aelodau staff eraill o gwmpas y coleg. Maent yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac o gwmpas y coleg, ac yn dangos parch ac ystyriaeth am bobl eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn arddangos perchnogaeth gref o'u dysgu wrth weithio ar weithgareddau y maent wedi'u dewis eu hunain, er enghraifft mewn dosbarthiadau medrau uwch, lle mae dysgwyr yn paratoi i symud ymlaen i'r cam nesaf mewn addysg neu hyfforddiant. Mae bron pob un o'r dysgwyr mewn meysydd dysgu galwedigaethol yn dangos agwedd broffesiynol at eu dysgu. Er enghraifft, maent yn ymfalchïo yn eu hymddangosiad ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r cyhoedd yn y tŷ bwyta a'r salonau.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae uwch arweinwyr a staff ar bob lefel wedi ystyried yn ofalus sut i ffurfio eu darpariaeth, ac yn darparu cymorth ac addysgu strwythuredig ar gyfer dysgwyr sy'n dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ar ôl y tarfu yn sgil y pandemig.

Mae'r coleg yn gweithio'n dda i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant y gymuned leol. Mae gan y coleg ffocws clir ar gyflwyno cyrsiau galwedigaethol sy'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Mae ganddynt ffocws cryf hefyd ar gynorthwyo dysgwyr bregus a rhai dan anfantais i ddatblygu eu dysgu yn y coleg. Mae'r coleg yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol a chenedlaethol i ddatblygu profiad gwaith, darparu sgyrsiau ac ymweliadau arbenigol a chyfleoedd dilyniant ar gyfer dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys partneriaeth fuddiol ag adeiladwr tai cenedlaethol i greu academi wedi'i lleoli ar safle adeiladu ar gyfer dysgwyr sy'n

dymuno gweithio yn y diwydiant adeiladu. Mae’r coleg yn cydweithio’n arbennig o dda gyda phartneriaid strategol i helpu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau interniaethau a gefnogir. Bron ym mhob achos, mae’r dysgwyr hyn yn mynd ymlaen i swydd gyflogedig o ganlyniad. Enghraifft o hyn yw’r cwrs gwyddor fforensig lle mae’r coleg wedi datblygu cysylltiadau hynod gryf â Heddlu De Cymru, gydag Uned Ymchwilio Gwyddonol ar y Cyd Cymru yn benodol. Mae dysgwyr yn ymweld â’u canolfan i gael cipolwg ar yr uned lle maent yn ymgymryd ag ystod o ymchwiliadau realistig. Mae’r uned wedi cyfrannu offer arbenigol i’r coleg. Caiff dysgwyr gyfleoedd clir o ran dilyniant, ac maent yn ennill mewnwelediad gwerthfawr i yrfa mewn gwyddor fforensig.

Mae llwybrau dilyniant addas trwy’r lefelau, ar draws rhaglenni galwedigaethol. Mae’r rhain yn rhoi ystyriaeth dda i’r tarfu a achoswyd gan y pandemig ar brofiadau arferol dysgwyr. Mae’r rhaglen ‘Camu Ymlaen’ yn sylfaen ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sy’n dechrau yn y coleg sydd â chyrhaeddiad blaenorol cyfyngedig neu fylchau yn eu medrau. Ar y cyd ag ysgolion lleol, mae’r coleg yn cyflwyno darpariaeth prentisiaeth iau i ddarparu dysgu galwedigaethol gwerthfawr ar gyfer dysgwyr oedran ysgol mewn adeiladu a gwallt a harddwch. Mewn medrau byw yn annibynnol, mae ystod y rhaglenni dysgu yn darparu llwybrau addas a realistig i waith ar gyfer dysgwyr, gan integreiddio i’r gymuned a datblygu annibyniaeth.

Ar gyfer dysgwyr sy’n astudio’n amser llawn, mae llwybrau dilyniant buddiol i’r lefel astudio uwch nesaf neu i brentisiaethau a ddarperir gan dîm dysgu yn y gwaith y coleg.

Mae’r coleg wedi rhoi ystyriaeth ofalus i ddarpariaeth i alluogi dysgwyr nad ydynt wedi cyflawni gradd C mewn TGAU Saesneg neu fathemateg i ddatblygu hyd at y pwynt lle maent yn gallu sefyll neu ailsefyll yr arholiadau hyn. Mae dysgwyr sydd eisoes wedi ennill eu cymhwyster TGAU mewn Saesneg a mathemateg yn cael cyfle arloesol i ddewis o blith ystod eang o raglenni astudio agored, fel ieithoedd rhyngwladol, y Gymraeg, cadw cyfrifon a seicoleg, gyda chymorth amserlenedig tiwtor i’w sbarduno a rhoi arweiniad iddynt.

Dros flwyddyn academaidd, mae’r coleg yn cynnal calendr digwyddiadau, fel Wythnos Gymraeg, i hyrwyddo’r Gymraeg, annog dysgwyr i ddefnyddio’r Gymraeg fel rhan o’u bywydau bob dydd a’u gwaith, a deall eu diwylliant, cymdeithas a threftadaeth yn well. Mae athrawon sy’n siarad Cymraeg yn achub ar gyfleoedd defnyddiol i gael sgyrsiau bob dydd yn Gymraeg gyda dysgwyr Cymraeg ac esbonio cysyniadau yn Gymraeg. Mae’r coleg wedi blaenoriaethu meysydd dysgu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Yn y meysydd hyn, mae’r Gymraeg yn faes galwedigaethol pwysig ac fe gaiff dysgwyr sesiynau amserlenedig defnyddiol gyda thiwtor iaith arbenigol i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Hefyd, mae’r coleg wedi nodi ychydig o gyrsiau y tu allan i’r meysydd blaenoriaeth hyn ble caiff dysgwyr wersi Cymraeg amserlenedig, ond heb gymorth tiwtor Cymraeg arbenigol. Ar gyfer dysgwyr sy’n astudio’r tu allan i’r meysydd targedig neu flaenoriaeth hyn, prin yw’r cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn ffordd systematig trwy eu prif raglenni dysgu galwedigaethol.

Mae bron pob un o’r athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion addysgol a bugeiliol eu dysgwyr, ac yn datblygu

perthnasoedd gwaith cryf a chynhyrchiol â nhw. Maent yn ystyriol o effaith y pandemig ar ddysgwyr, ac yn teilwra eu gwersi a'u ffordd o'u cyflwyno yn unol â hynny.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trefnu, cynllunio a pharatoi gwersi effeithiol a chynhwysol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr. Mewn llawer o achosion, maent yn gosod cyflymdra effeithiol i'r sesiwn fel bod dysgwyr yn cael eu herio ond nid eu gor-ymestyn.

Mewn sesiynau galwedigaethol, mae athrawon yn arddangos cymhwysedd galwedigaethol cryf, ac mae llawer ohonynt yn modelu medrau a disgwyliadau proffesiynol eu meysydd galwedigaethol yn dda. Mae hyn, wedi'i gyfuno â gweithgareddau defnyddiol yn gysylltiedig â gwaith a mewnbwn gan gyflogwyr, yn helpu gwneud i'r rhan fwyaf o'r sesiynau deimlo'n berthnasol i ddysgwyr.

Mewn addysgu wyneb yn wyneb, mae llawer o athrawon yn holi dysgwyr yn dda. Defnyddiant ystod o offer asesu ffurfiannol buddiol, gan gynnwys cwisiau ar-lein a gweithgareddau rhyngweithiol digidol i wirio a datblygu dealltwriaeth dysgwyr, canfod camdybiaethau a helpu symud y wers ymlaen.

Mae athrawon yn aml yn defnyddio dulliau wedi'u seilio ar brosiect a thema sy'n effeithiol o ran cynnal diddordeb dysgwyr a'u perchnogaeth o'u gwaith. Mae athrawon yn y celfyddydau creadigol yn defnyddio dulliau tîm arloesol mewn gweithgareddau asesu ac adborth, gan gynnwys adborth ysgrifenedig a llafar cofnodedig deuol i roi adborth clir i ddysgwyr gyda chynghorion defnyddiol i wella eu gwaith presennol a'u gwaith yn y dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyflwyno cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ddatblygu medrau cyfathrebu yn eu sesiynau, fel gwaith grŵp a gwaith prosiect, cyflwyniadau a thrafodaethau ar y cyd. Mewn sesiwn fusnes, mae'r athro'n datblygu trafodaeth sy'n galluogi dysgwyr i gysylltu effaith digwyddiadau byd-eang ar fusnesau a'r economi.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio, neu'n adeiladu ar gyfleoedd sy'n codi'n naturiol, i ddatblygu medrau fel llythrennedd digidol, datrys problemau a chreadigrwydd. Mae athrawon yn dyfarnu 'bathodynnau digidol' i ddysgwyr i gydnabod eu cynnydd yn y medrau hyn.

Ar hyn o bryd, caiff tua 10 y cant o ddosbarthiadau'r coleg eu cyflwyno ar-lein. Mewn llawer o'r dosbarthiadau hyn ar-lein, mae athrawon yn cynllunio'n dda ac yn gweithio'n galed, ond yn ei chael yn anodd cynnal ymgysylltiad dysgwyr trwy gydol y sesiwn.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan y coleg ethos cadarnhaol, gofalgar a chynhwysol lle mae dysgwyr o wahanol gefndiroedd yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cefnogaeth. Mae'r coleg yn darparu cludiant, brecwast a ffrwythau am ddim i hyrwyddo mynediad at addysg i bob dysgwr.

Mae'r coleg yn darparu cyngor ac arweiniad effeithiol i ddysgwyr wedi iddynt wneud cais i astudio yn y coleg, ac o ddechrau eu cyrsiau. Mae ysgolion haf defnyddiol yn

galluogi dysgwyr bregus i gyfarfod â staff allweddol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n teimlo'n orbryderus ynglŷn â dechrau yn y coleg.

Mae trefniadau pontio o'u hysgol flaenorol yn sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn cael eu nodi mewn modd amserol. Mae prosesau cadarn ar waith i nodi a dyrannu cymorth i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol.

Dywed llawer o ddysgwyr fod gweithgareddau ymsefydlu yn eu helpu i ymgynefino'n dda yn y coleg. Mewn ychydig o achosion, mae arweiniad cynnar wedi helpu dysgwyr i newid i gwrs sy'n gweddu'n well i'w hanghenion a'u huchelgeisiau. Mae'r coleg wedi sefydlu proses fuddiol i adolygu dysgwyr sydd efallai eisiau rhoi'r gorau i'w cyrsiau i weld a allai fod yna ddewisiadau eraill a all eu helpu i barhau mewn addysg. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran adolygu'r opsiynau sy'n agored i ddysgwyr a'r cymorth sydd ar gael. O ganlyniad, mae dysgwyr wedi aros ar eu cyrsiau neu wedi trosglwyddo i gyrsiau eraill a allai fod wedi rhoi'r gorau i astudio fel arall.

Mae'r coleg wedi defnyddio cyllid dros dro gan Lywodraeth Cymru i gyflogi staff lles ychwanegol. Maent yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon a thiwtoriaid yn effeithiol i nodi materion a allai fod yn effeithio ar les, presenoldeb a chynnydd dysgwyr. Mae'r coleg yn gweithio gyda phartneriaid allanol fel gwasanaethau cymorth arbenigol, ysgolion a'r awdurdod lleol i nodi a chynorthwyo dysgwyr i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu eu hanghenion. Mae'r coleg yn gweithio'n dda i wneud yn siŵr fod gan ddysgwyr yr adnoddau arbenigol y gallai fod eu hangen arnynt i ymgysylltu â'u dysgu yn llwyddiannus.

Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn cydweithio i wella eu lles a'u gwydnwch gan eu helpu i oresgyn rhwystrau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cymorth dysgu teilwredig i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae cynlluniau cymorth yn diwallu anghenion unigol dysgwyr, a chânt eu rhoi ar waith yn brydlon. Mae hyn yn arbennig o gryf ar gyfer y dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol, gan eu galluogi i wneud cynnydd da yn eu dysgu a gwella eu medrau cymdeithasol ac emosiynol. Mae systemau ar draws y coleg yn cynnwys gwybodaeth fanwl sy'n galluogi staff perthnasol i fesur effaith y cymorth ar gynnydd ac ymgysylltiad dysgwyr. Ceir llawer o enghreifftiau o'r cymorth hwn yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch.

Mae gan y coleg raglen diwtorial gynhwysfawr ar draws y coleg sy'n cynnwys testunau fel cynaliadwyedd, democratiaeth, diogelwch ar-lein, a radicaleiddio. Mae llawer o ddysgwyr yn mynd at gynnwys trwy ap ac yn cwblhau gweithgareddau wythnosol sydd wedyn yn cael eu monitro gan diwtoriaid personol. Fodd bynnag, ni all lleiafrif o ddysgwyr alw i gof na dangos dealltwriaeth o lawer o'r testunau yr ymdriniwyd â nhw. Ni chaiff deunyddiau a rhaglenni eu haddasu'n ddigonol i ddiwallu anghenion llawer o ddysgwyr sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Caiff dysgwyr wybodaeth fuddiol gan athrawon, staff gyrfaoedd, trwy ymgysylltu â chyflogwyr lleol a chyn-ddysgwyr i'w cynorthwyo i wneud dewisiadau gwybodus am eu camau nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr nodau clir ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae bron pob un o’r staff yn glir ynglŷn â’r hyn y mae angen iddynt ei wneud os oes ganddynt bryderon ynghylch diogelu. Mae staff newydd yn cwblhau hyfforddiant ar-lein yn ymwneud â diogelu ac Atal pan fyddant yn ymuno â’r coleg. Maent yn cael nodiadau atgoffa buddiol bob blwyddyn, pan fydd angen iddynt ddiweddaru eu hyfforddiant.

I ychwanegu at yr hyfforddiant hwn, mae’r coleg yn hyrwyddo digwyddiadau ychwanegol bob mis Tachwedd, fel rhan o’r Wythnos Genedlaethol Diogelu, gan gwmpasu testunau fel meithrin perthynas amhriodol ar-lein, seiberfwlio a llinellau cyffuriau.

Mae gan y coleg drefniadau priodol ar gyfer diogelu. Maent yn rhoi gwybod i ddysgwyr am ddiogelu a materion Atal yn ystod y cyfnod ymsefydlu, mewn sesiynau tiwtorial a thrwy amrywiaeth o fentrau. Eleni, mae’r coleg wedi croesawu cwmni theatr lleol i gyflwyno gweithdai am destunau diogelu fel troseddau casineb, llinellau cyffuriau, a chamfanteisio’n rhywiol ar blant. Mae llawer o ddysgwyr yn deall sut i aros yn ddiogel ar-lein. Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn galw negeseuon allweddol i gof ynghylch radicaleiddio a therfysgaeth.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth, gyda chymorth gan uwch arweinwyr, wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir a chyfeiriad strategol ar gyfer y coleg. Mae hyn yn cynnwys ethos cryf o gynhwysiant cymdeithasol a phrif ffocws ar y dysgwr sy’n treiddio i bob agwedd ar waith y coleg. Caiff gweledigaeth y coleg i greu amgylchedd ymddiriedus lle mae pawb yn teimlo y gallant gyfrannu syniadau ei hymgorffori’n dda. Mae staff yn deall pwysigrwydd gwneud yn siŵr fod pob dysgwr yn ddiogel, a bod lles dysgwyr a staff yn cael ei hyrwyddo a’i gefnogi ar draws y coleg.

Mae’r coleg yn diwallu anghenion y gymuned leol yn dda, yn enwedig o ran y cymorth y mae’n ei ddarparu i ddysgwyr bregus a rhai dan anfantais. Mae’r coleg yn canolbwyntio’n bennaf ar ddarpariaeth alwedigaethol. Mae’n gweithio’n dda gyda phartneriaid lleol i ddatblygu ei gynnig cwricwlwm ac ymestyn cyfleoedd profiad gwaith a dilyniant ar gyfer dysgwyr. Mae’r coleg yn gweithio’n briodol gydag ysgolion lleol i gyflwyno ystod o gyrsiau Safon Uwch.

Mae llawer o athrawon a staff cymorth yn teimlo bod y coleg yn cael ei arwain yn dda a’i reoli’n effeithiol. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a dysgwyr ac maent yn mwynhau gweithio yn y coleg. Maent yn gwerthfawrogi’r diwylliant cefnogol cryf ac yn gweithio gyda’i gilydd yn dda er budd y dysgwyr. Caiff dysgwyr gyfleoedd addas i roi adborth ar y ddarpariaeth bresennol a dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys trwy arolygon canfyddiadau dysgwyr, cynrychiolwyr dosbarth a rolau dysgwyr-lywodraethwyr.

Mae’r rhan fwyaf o reolwyr y cwricwlwm a meysydd swyddogaethol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau allweddol a meysydd i’w datblygu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae arweinwyr meysydd cwricwlwm yn helpu cefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar lefel cwrs ac mae arweinwyr ansawdd yn helpu nodi a mynd i’r afael â meysydd penodol i’w gwella. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau priodol i liniaru effaith pandemig COVID-19 ar bresenoldeb a chadw. Fodd bynnag, nid yw ymglymiad ehangach staff mewn hunanwerthuso adrannol a choleg wedi’i

ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, mae lleiafrif o staff yn teimlo nad ydynt yn cael cyfle digonol i gyfrannu at hunanwerthuso cyffredinol mewn ffordd ystyrlon. Mae cynllun gwella ansawdd y coleg yn cynnwys meysydd allweddol ar gyfer datblygiadau, amserlenni a chynnydd. Fodd bynnag, oherwydd COVID-19, mae ychydig o gamau gweithredu y tu hwnt i'w dyddiadau cwblhau gwreiddiol amserlenedig.

Mae gan y coleg fodel tra ystyriol i gefnogi datblygiad proffesiynol staff addysgu. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd effeithiol o dîm o anogwyr addysgu a dysgu ac anogwyr digidol sydd â rôl allweddol mewn cefnogi arsylwadau cymheiriad i gymheiriad. Mae hyn yn golygu bod staff yn cefnogi datblygiad ei gilydd mewn grwpiau bach, a chyfeirir at hyn fel 'trionglau addysgu'. Mae staff addysgu a'u cynrychiolwyr yn gweld bod y fenter hon yn cynnig dull mwy graddol a chefnogol o wella ansawdd yr addysgu na dulliau blaenorol a oedd yn canolbwyntio mwy ar werthuso a barnau yn hytrach na datblygu a gwella. Hefyd, mae'r coleg yn cefnogi rheolwyr presennol a darpar reolwyr yn dda i ddatblygu eu medrau arwain trwy raglen ddatblygu yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae gan y coleg fframwaith strategol priodol ar gyfer datblygu ei ddarpariaeth Gymraeg. Mae hyn yn cysylltu â strategaethau cenedlaethol, gan gynnwys cynllun gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef *Tuag at Cymraeg 2050*. Mae'r coleg yn darparu cymorth defnyddiol ar gyfer staff sy'n dymuno datblygu eu medrau Cymraeg, gan gynnwys ar gyfer athrawon sydd eisiau datblygu eu hyder a'u gallu i ddarparu addysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r coleg yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu capasiti digidol ar draws ei ddarpariaeth. Mae wedi buddsoddi'n helaeth mewn adnoddau ychwanegol a datblygiad proffesiynol ar gyfer ymarferwyr. Dechreuwyd ar y datblygiadau hyn cyn cychwyn pandemig COVID-19. Maent wedi bod yn hynod werthfawr o ran helpu cynnal parhad dysgu yn ystod cyfnodau pan roedd presenoldeb ar safleoedd wedi'i gyfyngu o ganlyniad i'r pandemig.

Mae uwch arweinwyr, rheolwyr a staff y coleg yn arddangos ymrwymiad cryf, ac yn cymryd camau priodol i amlygu a mynd i'r afael ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cwmpasu llawer o agweddau ar waith y coleg, yn cynnwys datblygu'r cwricwlwm, strategaethau adeiladau ac arferion caffael adnoddau. Mae grŵp gorchwyl carbon y coleg yn allweddol o ran gyrru agenda uchelgeisiol y coleg tuag at darged sero net.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir a chadarn o gryfderau presennol y coleg, a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn cydnabod bod angen darparu her a chymorth cadarn i uwch arweinwyr o ran materion strategol allweddol, a goruchwylio perfformiad y coleg yn effeithiol. Mae'r coleg yn cynnal sefyllfa ariannol gref. Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â rôl weithredol mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar faterion strategol yn ymwneud ag adeiladau a chymeriad addysgol y coleg.

Mae trawsnewid cyfleusterau yn academi STEAM ar gampws Pen-coed yn ddiweddar yn darparu amgylchedd dysgu cynaliadwy rhagorol ar gyfer y cwricwlwm gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, y celfyddydau, mathemateg ac astudiaethau'r tir. Mae adeiladau ar draws safleoedd eraill wedi dyddio. Mae'r coleg yn cydnabod

bod angen mynd i'r afael â'r broblem hon, ac yn gweithio'n dda gyda rhanddeiliaid priodol i gwblhau cynlluniau ar gyfer datblygu ystâd y coleg ymhellach.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr, ac yn ystyried barn athrawon, staff cymorth a'r corff llywodraethol, lle bo'n briodol, trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â'r pennaeth / prif weithredwr, llywodraethwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr a staff cymorth i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth a gweithdy ar draws y ddarpariaeth, lle bo'n briodol
- yn arsylwi dysgwyr, ac yn siarad â nhw y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2022